

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth – darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru Ionawr 2011

Cyflwynwyd y *Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth* yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Llun, 13 Rhagfyr. Mae'r papur hwn yn cynnwys canllawiau ar y darpariaethau yn y Mesur sy'n berthnasol i Gymru.

Mae'r Mesur Seneddol yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thri mater:

- refferenda lleol ynghylch lefelau arfaethedig y dreth gyngor;
- ceisiadau cynllunio a gorfodaeth;
- y system Cyfrif Refeniw Tai a Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth –
darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru
Ionawr 2011

Alys Thomas, Jonathan Baxter a Graham Winter

Rhif dogfen: 11/003

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Crynodeb

Cyflwynwyd y *Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth* yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Llun, 13 Rhagfyr, gan y Gwir Anrhydeddus Eric Pickles AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol. Mae Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi [Papur Ymchwil cynhwysfawr](#) ar y Mesur. Mae'r papur hwn yn cynnwys canllawiau ar y darpariaethau yn y Mesur Seneddol sy'n berthnasol i Gymru.

Mae'r Mesur yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thri mater¹:

- refferenda lleol ynghylch lefelau arfaethedig y dreth gyngor;
- ceisiadau cynllunio a gorfodaeth;
- y system Cyfrif Refeniw Tai a Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru.

Mae'r Mesur Seneddol hefyd yn cynnwys dwy ddarpariaeth ar gyfer Cymru yn unig a fydd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu ar amseru'r broses o ailbrisió'r dreth gyngor yng Nghymru, a'r pŵer iddynt roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol Cymru sy'n methu cyhoeddi cyfrifiadau cyllideb newydd ar ôl gosod cap ar eu treth gyngor.²

Bydd nifer o ddarpariaethau yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau na chaiff cyngorwyr eu hatal rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau lle maent wedi mynegi barn ynghylch materion cysylltiedig ("rhagderfyniad");
- ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi datganiadau polisi ynghylch tâl uwch weithwyr;
- diddymu dyletswyddau awdurdodau lleol i hyrwyddo dealltwriaeth o ddemocratiaeth leol a chynllunio ar gyfer ymdrin â deisebau;
- ei gwneud yn ofynnol bod pleidlais yn cael ei chynnal ar yr holl gynigion ar gyfer Atodiadau Ardrethi Busnes, a rhoi cyfle i awdurdodau lleol gynnig gostyngiadau ar Ardrethi Busnes yn ôl disgrisiwn.

Mae'r Mesur Seneddol hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n gofyn am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys

¹ [Swyddfa Cymru, Ysgrifennydd Cymru yn croesawu Mesur Lleoliaeth i drosglwyddo pŵerau i gymunedau, 13 Rhagfyr 2010](#)

² Ibid.

darpariaethau atebolrwydd tâl awdurdodau lleol, y diddymiadau sy'n berthnasol i ddemocratiaeth leol a deisebau a'r darpariaethau ar gyfer digartrefedd.³

Diben y ddogfen hon yw esbonio'n fwy trwyadl pa bwerau y mae'r Mesur Seneddol yn eu rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru a beth yw goblygiadau'r cymalau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

³ [Swyddfa Cymru, Ysgrifennydd Cymru yn croesawu Mesur Lleoliaeth i drosglwyddo pwerau i gymunedau, 13 Rhagfyr 2010](#)

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Y Mesur Seneddol: cymalau sy'n berthnasol i Gymru.....	3
3.	Darpariaethau ar gyfer Cymru : pwerau fframwaith.....	8
3.1.	Refferenda lleol ynghylch lefelau arfaethedig y dreth gyngor	8
3.2.	Ceisiadau cynllunio a gorfodaeth.....	10
3.3.	Y system Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) yng Nghymru.....	13
4.	Pwerau i Weinidogion Cymru	15
4.1.	Amseru'r broses o ailbriso'r dreth gyngor	15
4.2.	Pwerau ynghylch capio'r dreth gyngor	16
5.	Y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad	17

Y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y *Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth* yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Llun, 13 Rhagfyr, gan y Gwir Anrhydeddus Eric Pickles AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol. Cyhoeddwyd y Mesur Seneddol yn araith y Frenhines ar 25 Mai 2010, a nododd mai diben y Mesur Seneddol oedd datganoli rhagor o bwerau i gynghorau a chymdogaethau a rhoi rhagor o reolaeth i gymunedau lleol dros benderfyniadau tai a chynllunio. Mae Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi [Papur Ymchwil cynhwysfawr](#) am y Mesur Seneddol.⁴

Ynndo, mae'n nodi mai prif elfennau'r Mesur Seneddol yw:

- rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i gynghorau yn Lloegr;
- nodi'r mathau o drefniadau llywodraethu a fydd yn berthnasol i awdurdodau lleol yn Lloegr a chaniatáu i refferenda maerol gael eu cynnal mewn ardaloedd penodol;
- rhoi pwerau newydd i Loegr i helpu i achub cyfleusterau a gwasanaethau lleol sydd mewn perygl o gau, a rhoi'r hawl i gymunedau drosfeddiannu gwasanaethau a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol;
- diddymu'r drefn Bwrdd Safonau yn Lloegr;
- rhoi pŵer i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol a chyhoeddus yn Lloegr yn talu sancsiynau'r Undeb Ewropeaidd os yw'n eu cael yn euog o dorri cyfraith yr Undeb Ewropeaidd;
- ei gwneud yn ofynnol bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr yn cyflwyno dogfen bolisi ar gyflog uwchweithwyr;
- cyflwyno newidiadau i'r drefn cynllunio seilwaith mawr yng Nghymru a Lloegr;
- cyflwyno newidiadau i'r drefn gyfradd fusnes yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynnwys caniatáu i awdurdodau lleol gael rhagor o ddisgresiwn dros ryddhad ardrethi; a
- rhoi pŵer i drigolion gynnal refferenda lleol ar unrhyw fater lleol yn Lloegr a'r pŵer i atal unrhyw gynnydd eithafol yn y dreth cyngor.

⁴ [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, *Localism Bill: Local government and community empowerment* \[Mesur Seneddol Rhif 126 o 2010-11\] Papur Ymchwil 11/02, 11 Ionawr 2011](#)

Mae'r Mesur Seneddol yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â thri mater⁵:

- refferenda lleol ynghylch lefelau arfaethedig y dreth gyngor;
- ceisiadau cynllunio a gorfodaeth;
- y system Cyfrif Refeniw Tai a Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru.

Mae'r Mesur Seneddol hefyd yn cynnwys dwy ddarpariaeth i Gymru'n unig a fydd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu ar amseru'r broses o ailbrisió'r dreth gyngor yng Nghymru, a'r pŵer iddynt roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol Cymru sy'n methu cyhoeddi cyfrifiadau cyllideb newydd ar ôl iddynt osod cap ar eu treth gyngor.⁶

Bydd nifer o ddarpariaethau'n berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau na chaiff cynghorwyr eu hatal rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau lle maent wedi mynegi barn ynghylch materion cysylltiedig;
- ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi datganiadau polisi ynghylch tâl uwch weithwyr;
- diddymu dyletswyddau i awdurdodau lleol hyrwyddo dealltwriaeth o ddemocratiaeth leol a chynllunio ar gyfer ymdrin â deisebau;
- ei gwneud yn ofynnol bod pleidlais yn cael ei chynnal ar yr holl gynigion ar gyfer Atodiadau Ardrethi Busnes, a rhoi cyfle i awdurdodau lleol gynnig gostyngiadau ar Ardrethi Busnes yn ôl disgresiwn.
- newid y ffordd gallai awdurdodau tai lleol gyflawni'r brif ddyletswydd o ran digartrefedd o dan *Ddeddf Tai 1996*.

Mae'r Mesur Seneddol hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n gofyn am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad Cenedlaethol.⁷ Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau atebolrwydd tâl awdurdodau lleol, y diddymiadau sy'n berthnasol i ddemocratiaeth leol a deisebau a'r darpariaethau ar gyfer digartrefedd.⁸

Mae'r Mesur Seneddol wedi'i gyhoeddi mewn dwy ran; un sy'n cynnwys y 208 o gymalau a'r llall sy'n cynnwys y 24 Atodlen.

⁵ [Swyddfa Cymru, Ysgrifennydd Cymru yn croesawu Mesur Lleoliaeth i drosglwyddo pwerau i gymunedau](#), 13 Rhagfyr 2010

⁶ Ibid.

⁷ [Gweler Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, Tachwedd 2010](#).

⁸ Op.cit, Swyddfa Cymru, 13 Rhagfyr 2010.

Diben y ddogfen hon yw esbonio'n fwy trwyadl pa bwerau y mae'r Mesur Seneddol yn eu rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru a beth yw goblygiadau'r cymalau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr.

2. Y Mesur Seneddol: cymalau sy'n berthnasol i Gymru

Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau sydd yn y *Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth* yn berthnasol i Loegr yn unig. Fodd bynnag, mae rhai cymalau sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr ac i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r adran hon yn crynhoi'r cymalau sy'n berthnasol i Gymru.

Mae **rhan 1, cymalau 1 i 7** o'r Mesur Seneddol yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol yn Lloegr. Drwy wneud hynny, mae Atodlen 1 yn diddymu'r pwerau llesiant yn *Neddf Llywodraeth Leol 2000* lle maent yn berthnasol i Loegr. **Fodd bynnag, mae'r pwerau llesiant hyn yn dal i fod yn berthnasol i Gymru.**

Mae **rhan 1, pennod 4, cymal 13** yn egluro sut mae'r cysyniad o "**ragderfyniad**" mewn cyfraith gwlad yn berthnasol i gynghorwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae Nodiadau Esboniadol y Mesur yn nodi:

Predetermination occurs where someone has a closed mind, with the effect that they are unable to apply their judgment fully and properly to an issue requiring a decision. Decisions made by councillors later judged to have predetermined views have been quashed. The clause makes it clear that if a councillor has given a view on an issue, this does not show that the councillor has a closed mind on that issue, so that if a councillor has campaigned on an issue or made public statements about their approach to an item of council business, he or she will be able to participate in discussion of that issue in the council and to vote on it if it arises in an item of council business requiring a decision.⁹

Mae cymal 13 yn berthnasol i aelodau o bob cyngor yng Nghymru a Lloegr y mae etholiadau uniongyrchol iddynt - er ei fod yn berthnasol i aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y cynghorau hynny, ac aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae **rhan 1, pennod 6** yn nodi'r gofynion ar gynghorau i baratoi **datganiadau polisi tâl uwch** y bydd yn rhaid iddynt eu dilyn wrth bennu tâl uwch. Mae hyn yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae cymal 21(1) yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod perthnasol yn **paratoi datganiad, bob blwyddyn, sy'n nodi polisi'r awdurdod ar dâl ei brif swyddogion ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol**. Gallai hefyd gynnwys polisiau'r awdurdod ar delerau ac amodau eraill y prif

⁹ [Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth, Nodiadau Esboniadol, Rhagfyr 2010](#)

swyddogion. Wrth baratoi ei ddatganiad, rhaid i'r awdurdod ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd, neu a gymeradwywyd, gan Weinidogion Cymru. Bydd angen cyflwyno **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol** yn y Cynulliad ar gyfer hyn.

Mae **rhan 1, pennod 7 yn diddymu'r dyletswyddau** sy'n ymwneud â **hyrwyddo democratiaeth** a'r darpariaethau ynghylch **deisebau i awdurdodau lleol**. Bydd angen cyflwyno **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol** yn y Cynulliad ar gyfer hyn.

Mae **cymal 27 yn dileu'r gofyniad** ar brif awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i **ddarparu gwybodaeth i bobl am sut mae systemau llywodraethu lleol yn gweithio**, gan gynnwys gwybodaeth am rôl y cyngor, cynghorwyr, cyrff cyhoeddus perthnasol eraill a swyddi dinesig fel swyddi ynadon, a sut y gall pobl gymryd rhan.

Mae **cymal 28 yn dileu'r gofyniad** ar brif awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i **lunio cynllun ar gyfer delio â deisebau y mae'r awdurdod yn eu cael, i gyhoeddi'r cynllun hwnnw ac i gydymffurfio ag ef**, ac i ddarparu gwasanaeth er mwyn galluogi pobl i gyflwyno deisebau i'r awdurdod ar ffurf electronig. **Mae hefyd yn dileu'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy Orchymyn mewn perthynas â chynlluniau deisebau.**

Mae **rhan 3** yn cynnwys dwy ddarpariaeth mewn perthynas â chyfraddau busnes yng Nghymru, gan gynnwys gwneud newidiadau i **atodiadau ardrethi busnes ac ardrethi dewisol.**

Mae **cymal 35** yn diwygio *Deddf Atodiadau Ardrethi Busnes 2009* i ddarparu y bydd yn rhaid i bob cynnig i osod Atodiadau Ardrethi Busnes gael eu cymeradwyo drwy bleidlais gan yr holl bobl sy'n gymwys i bleidleisio, yn hytrach na'r drefn bresennol lle mae'n rhaid cynnal pleidlais os yw'r Atodiadau yn cael eu defnyddio i ariannu mwy nag un rhan o dair o gyfanswm y prosiect y mae'r Atodiadau Ardrethi Busnes yn ymwneud â nhw. Mae cymal 35(6) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw wybodaeth bellach benodol am ganlyniad unrhyw bleidlais yn cael ei chyhoeddi yn y prospectysau cyntaf ac olaf ar gyfer yr Atodiadau Ardrethi Busnes. Ni fyddai'r gwelliannau'n berthnasol i unrhyw Atodiad Ardrethi Busnes sydd eisoes wedi'i osod pan ddaw'r gwelliannau i rym (os yw'r Atodiad yn daladwy bryd hynny ai peidio)

Mae **cymal 36** yn diwygio adran 47 o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* i **gyfnewid amgylchiadau cyfyngedig awdurdodau lleol ar hyn o bryd ar gyfer rhoi ardrethi dewisol am y pŵer i roi ardrethi o dan unrhyw amgylchiadau**. Ac eithrio'r amgylchiadau cyfyngedig a nodwyd, mae hyn yn dibynnu ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn gosod ardrethi cyhyd â'i bod yn rhesymol gwneud hynny gan ystyried buddiannau talwyr y dreth gyngor o fewn ei ardal. Mae'r gwelliannau

hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn ystyried unrhyw ganllawiau gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu rhoi ardreth o dan adran 47.

Mae **rhan 4, cymal 57** yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. **Mae'r cymal yn caniatáu i'r Cynulliad basio Mesurau'r Cynulliad mewn perthynas â refferenda lleol ynghylch y cynnydd yn lefelau arfaethedig y dreth gyngor.**

Mae **rhan 4, cymal 65** yn diwygio *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992* i **roi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn, bennu amser ar gyfer y broses o ailbrisió'r dreth gyngor yng Nghymru**, yn hytrach na'u bod yn rhwymedig i amserlen Cymru sydd wedi'i nodi yn *Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992*. Mae'r gorchmynion yn agored i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Cynulliad.

Mae **rhan 4, pennod 4** yn ymwneud â **Thir â Gwerth Cymunedol**. Mae cymal 71 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i gadw rhestr o asedau â gwerth cymunedol. Mae'r cymal yn nodi y caiff asedau eu tynnu oddi ar y rhestr ar ôl pum mlynedd (oni bai eu bod wedi'u tynnu oddi ar y rhestr eisioes) ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cyfnod hwnnw.

Mae **cymal 73** yn creu **darpariaeth ar gyfer cynnwys tir ar y rhestr, drwy enwebiadau gan y gymuned neu fel y'i nodir gan yr awdurdod perthnasol mewn rheoliadau** (a all hefyd gynnwys manylion am enwebiadau a rhestrau gan yr awdurdod lleol a luniwyd ar ei fenter ei hun). Mae hefyd yn darparu ar gyfer rheoliadau ar gyfer pennu gweithdrefnau y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth ystyried enwebiadau. Mae cymal 74 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn ystyried enwebiad gan y gymuned, ac yn ei derbyn os yw'r tir a enwebwyd o fewn ardal yr awdurdod a'i fod o werth cymunedol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod lleol yn ysgrifennu at yr enwebwr i nodi'r rhesymau dros beidio â rhestru'r tir. Mae cymal 75 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn rhoi rhybudd i bersonau penodol pan fydd darn o dir yn cael ei gynnwys neu'i dynnu oddi ar y rhestr, ynghyd â disgrifiad o'r darpariaethau statudol. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r awdurdod perthnasol wneud darpariaethau ychwanegol ynghylch rhoi rhybudd.

Mae **pennod 6, rhan 5** o'r Mesur Seneddol yn creu darpariaethau ynghylch prosiectau seilwaith o bwys yng Nghymru a Lloegr, yn arbennig **diddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith**. Y Comisiwn Cynllunio sy'n gyfrifol ar hyn o bryd am geisiadau i gael caniatâd i ddatblygu prosiectau seilwaith cenedlaethol arwyddocaol yng Nghymru, o dan y categorïau a restrwyd isod:

- adeiladu neu ymestyn gorsaf bŵer dros 50 megawat ar y tir neu dros 100 megawat ar y môr;

- adeiladu llinellau trydan uwchben y ddaear, oni bai nad ydynt dros 132 cilofolt neu ar gyfer cwsmer unigol;
- storio nwy o dan y ddaear mewn strata mandyllog naturiol uwchben trothwyon penodol a lle bo'r datblygiad arfaethedig yn trosglwyddo nwy;
- creu piblinellau trawsgwlad (ac eithrio gan gludwyr nwy) sydd dros 10 milltir o hyd; ac
- adeiladu neu ddiwygio porthladd gyda mwy o gyfleusterau uwchlaw trothwyon penodol.

Bydd y Mesur Seneddol yn **diddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith fel sefydliad annibynnol ac yn trosglwyddo staff ac adnoddau'r Comisiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi y bydd yn sefydlu Uned Cynllunio Seilwaith Mawr yn lle hynny a fydd yn rhan o Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr. O ganlyniad, bydd swyddi Comisiynwyr Cymru y Comisiwn Cynllunio hefyd yn cael eu diddymu.** Bydd yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig ar brosiectau seilwaith cenedlaethol arwyddocaol yng Nghymru, o dan y categorïau a restrwyd uchod. Yna, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y penderfyniad terfynol yn unol â Datganiadau Polisi Cenedlaethol a gymeradwywyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r Mesur Seneddol hefyd yn diwygio *Deddf Cynllunio 2008* i'w gwneud yn ofynnol bod Tŷ'r Cyffredin yn gorfod cymeradwyo'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Cyhoeddwyd Datganiadau Polisi Cenedlaethol diwygiedig ar ynni gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w trafod ymhellach ym mis Hydref 2010. Nodwyd pryderon ynghylch y ffaith nad oedd fersiynau blaenorol yn egluro'r berthynas rhwng polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig a pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar ynni yn ddigonol.¹⁰ Nid yw'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol diwygiedig wedi'u newid lawer yn hynny o beth.

Ym mis Gorffennaf 2010, nododd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ei bod yn bwriadu cwrdd â Gweinidog Llywodraeth y Deyrnas Unedig dros Gynllunio a Datganoli i ddadlau bod y Mesur Seneddol hefyd yn cynnig cyfle i Lywodraeth y Deyrnas Unedig **ddatganoli cyfrifoldeb dros gydsyniadau sylweddol ar ynni**¹¹. Fodd bynnag, nid yw'r Mesur Seneddol yn darparu ar gyfer hyn ar hyn o bryd.

¹⁰ Gweler dystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cynllunio Seilwaith o ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i'r system gynllunio: 14-SC-PL, [Tystiolaeth gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith \(Saesneg yn unig\)](#), 9 Mehefin 2010

¹¹ Datganiad i'r Wasg, Llywodraeth Cynulliad Cymru: [Gweinidog Cymru yn ceisio trafodaeth â Llywodraeth Prydain am ragor o bweirau cynllunio ynni](#), 13 Gorffennaf 2010.

Mae **pennod 2, rhan 6** yn diwygio'r trefniadau ar gyfer **casglu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol**. Cyflwynwyd yr ardoll hon gan *Ddeddf Cynllunio 2008*. Caiff ei hystyried yn dreth, ac felly nid yw'r cyfrifoldeb drosti wedi'i ddatganoli. Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn dâl newydd y mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr y pŵer i'w godi ar y mwyafrif o'r datblygiadau newydd yn eu hardaloedd, ond nid yw hyn yn ofynnol. Caiff yr elw o'r ardoll ei ddefnyddio i ddarparu seilweithiau newydd i gefnogi datblygu ardaloedd yn unol â chynlluniau datblygu awdurdodau lleol. Yng Nghymru, mae gan y 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a thri awdurdod y parciau cenedlaethol y pŵer i godi'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Mae'r Mesur Seneddol yn cynnwys cymalau sy'n delio â'r dystiolaeth sy'n sail i bennu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a phwerau'r arolygydd annibynnol. Maent hefyd yn caniatáu i reoliadau nodi achosion o drosglwyddo derbynebaw'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae'n nodi:

(4) After section 216 insert—

216A Duty to pass receipts to other persons

(1) CIL regulations may require that CIL received in respect of development of land in an area is to be passed by the charging authority that charged the CIL to a person other than that authority.

Caiff y cymal hwn ei esbonio mewn datganiad gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, sy'n nodi:

Some changes to the levy will require amendments to legislation and regulations. The Government will include provisions in the Localism Bill to limit the binding nature of examiners' reports, and amend the Community Infrastructure Levy Regulations 2010 to give local communities more control over the levy, and make it more responsive to local needs.

The Government will require charging authorities to allocate a meaningful proportion of their levy revenues raised in each neighbourhood back to that neighbourhood [...]¹²

Mae **rhan 5, pennod 7, cymal 119** yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r cymal yn **caniatáu i'r Cynulliad basio Mesurau mewn perthynas â gwahanol agweddau ar reoli datblygiadau yng Nghymru, gan gynnwys ceisiadau am ganiatâd cynllunio, arfer swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol a gorfodi cyfyngiadau o dan deddfwriaethau cynllunio gwlad a thref.**

Mae **pennod 1 o ran 6** yn creu darpariaeth sy'n galluogi awdurdodau tai lleol yng Nghymru a Lloegr i gyflawni eu dyletswyddau'n llawn i sicrhau llety i bobl sy'n ddi-gartref yn anfwriadol drwy drefnu **llety addas yn y sector rhentu preifat.**

¹² Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Datganiad i'r Wasg, [Clark: Communities to share in the advantages of development](#), 18 Tachwedd 2010

Mae **cymal 152** yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r cymal yn **caniatáu i'r Cynulliad basio Mesurau mewn perthynas â chyfrifon, benthyca a chymorthdaliadau sy'n ymwneud â swyddogaethau awdurdodau tai lleol**. Mae'r cymhwysedd yn ymwneud yn benodol â'r system Cyfrif Refeniw Tai a Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru, ac yn galluogi'r Cynulliad i wneud darpariaethau ar gyfer Cymru sy'n cyd-fynd â'r darpariaethau a wnaed i Loegr ym mhennod 3 o ran 6.

3. Darpariaethau ar gyfer Cymru : pwerau fframwaith

3.1. *Refferenda lleol ynghylch lefelau arfaethedig y dreth gyngor*

Mae'r Mesur Seneddol yn diwygio Atodlen 5 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, ym Maes 12 (llywodraeth leol), er mwyn mewnosod y canlynol:

Matter 12.19

Referendums on council tax increases by county councils, county borough councils, police and crime commissioners and fire and rescue authorities.

Mae'r Mesur Seneddol yn creu darpariaethau ar gyfer cynnal refferenda ynghylch lefelau'r dreth gyngor yn Lloegr. **Effaith cymal 57 yw caniatáu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth debyg mewn Mesur Cynulliad pe byddai'n dymuno gwneud hynny.**

Mae Atodlen 5 i'r Mesur Seneddol yn mewnosod pennod newydd yn *Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992* sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer cynnal refferenda ynghylch lefelau'r dreth gyngor yn Lloegr.

Dywedodd y Ceidwadwyr, fel yr wrthblaid, pe baent yn cael eu hethol, y byddent yn diddymu'r cap ar y dreth gyngor ac yn rhoi system yn ei le a fyddai gwneud unrhyw gynnydd a gynlluniwyd yn lefelau'r dreth gyngor sydd uwchben trothwy penodol yn amodol ar refferendwm lleol.¹³ Gallai etholwyr lleol atal cynnydd eithafol pe dymunant wneud hynny. Cyhoeddodd y Llywodraeth Glymblaid bapur ymgynghorol ar y cynnig ym mis Awst 2010.¹⁴

Roedd y Gwir Anrhydeddus Eric Pickles AS yn dadlau:

If councils want to increase council tax further, they will have to prove the case to the electorate. Let the people decide.

The new Government is committed to a review of local government resource, but such reforms must go hand in hand with measures to protect the interests of local taxpayers.

¹³ [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Council Tax: local referendums, Standard Note, SN/PC_05682, 1 Medi 2010](#)

¹⁴ [Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Localism Bill – Provision for referendums to veto excessive council tax increases: impact assessment – consultation stage, Awst 2010.](#)

This is a radical extension of direct democracy, as part of a wider programme of decentralising power to local communities. Power should not just be given to councils, but be devolved further down to neighbourhoods and citizens.¹⁵

Fodd bynnag, mae rhai'n dadlau bod y cynnig yn wrth-leol, ac y bydd yn rhwystro ymreolaeth ariannol cynghorau. Ysgrifennodd David Walker ym mhapur newydd *The Guardian*:

High up in the localism bill is a measure designed to intimidate councillors by threatening referendums on plans to raise tax above some centrally specified threshold.¹⁶

Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i osod cap ar lefelau'r dreth gyngor, o dan ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisioes, pe dymunant wneud hynny. Wrth ateb cwestiynau llafar yn y Cyfarfod Llawn ddechrau mis Rhagfyr 2010, nododd Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol:

My position is that I stand ready to use my capping powers if necessary, and I believe that local authorities would be wise to consider that in their precept-setting arrangements. I have not received any indication as yet that authorities are considering large increases in their precepts, but I will use my capping powers if I need to.¹⁷

Mewn datganiad ysgrifenedig ar y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth, eglurodd Mr Sargeant:

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylai fod rôl gryfach i ddinasyddion Cymru o ran penderfynu ar y dreth gyngor flynyddol, ac am ystyried ymhellach yr opsiwn gorau i Gymru o ran cadw rheolaeth ar gynnydd gormodol yn y dreth gyngor a chynnal refferenda.

Felly mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio pwerau o dan y Mesur i'w galluogi i ddeddfu ar gyfer dilyn y broses o ran diffinio egwyddorion yr hyn sy'n ormodol, amseru proses unrhyw refferendwm, gweithdrefn a fformat y refferenda i'w cynnal a'r sancsiynau y byddai awdurdodau'n eu hwynebu o fethu dilyn y broses statudol.¹⁸

Nododd mewn Memorandwm Esboniadol¹⁹ gan Weinidogion Cymru ynghylch darpariaethau Cymru yn y Mesur Seneddol y byddai'r pwerau'n galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i refferenda gael eu cynnal ar gynnydd arfaethedig yn lefelau'r dreth gyngor a pha broses i'w dilyn. Byddai hyn yn cynnwys:

- diffinio'r egwyddorion o ormodedd a fyddai'n creu'r angen am refferendwm;

¹⁵ [Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, *New people power to end the era of soaring council tax*, Datganiad i'r Wasg, 20 Gorffennaf 2010](#)

¹⁶ [David Walker, 'Eric Pickles' Bill is a farrago', *The Guardian*, 14 Rhagfyr 2010](#)

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 1 Rhagfyr 2010

¹⁸ Datganiad Ysgrifenedig gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai a Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, *Y Mesur Lleoliaeth*, 14 Rhagfyr 2010.

¹⁹ Memorandwm Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bwerau fframwaith i Gymru yn y Mesur Refferendwm, Rhagfyr 2010.

- amseriad unrhyw broses refferendwm;
- gweithdrefn a fformat y refferenda sydd i'w cynnal; a
- unrhyw gosb y byddai awdurdodau yn ei hwynebu os ydynt yn methu â dilyn y broses statudol.

Nododd y Memorandwm y **gallai'r** Cynulliad greu darpariaethau ynghylch y canlynol:

- cyhoeddi'r egwyddorion o ormodedd drafft fel mater o drefn pan cyhoeddir y setliad llywodraeth leol dros dro yn ail hanner mis Hydref. Gallai'r rhain fod yn destun ymgynghoriad yn ogystal â'r cynigion setliad llywodraeth leol drafft, gyda'r bwriad o gadarnhau'r egwyddorion pan gaiff adroddiad cyllid llywodraeth leol ei osod i'w drafod a'i gymeradwyo gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr.
- caniatâu i awdurdodau gynnal refferenda gyda gwahanol opsiynau ar gyfer cynyddu'r dreth gyngor yn eu hardaloedd, gydag o leiaf un dewis nad ystyrir ei fod yn ormodol.
- pwerau i bennu trefniadau ar gyfer cynnal refferendwm. Byddai hyn yn cynnwys llunio unrhyw gwestiwn refferendwm a'r trefniadau pleidleisio.
- darpariaethau y byddai costau unrhyw refferendwm yn cael eu talu gan yr awdurdod sy'n lansio'r refferendwm.

3.2. *Ceisiadau cynllunio a gorfodaeth*

Mae cymal 119 o'r Mesur Seneddol yn nodi:

119 Powers of the National Assembly for Wales

(1) In Part 1 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 (Assembly Measures: matters), Field 18 (Town and Country Planning) is amended as follows.

(2) After Matter 18.3 insert—

"Matter 18.4

Applications for planning permission.

This does not include—

- (a) the cases in which planning permission is required,
- (b) obligations, entered into in connection with applications, that—
 - (i) restrict, or require, the doing of anything in, on, under or over any land, or

- (ii) require payments to be made,
- (c) applications for urgent development made—
 - (i) by or on behalf of the Crown, or
 - (ii) in respect of land in which there is any Crown interest, or
- (d) appeals (and further appeals) and other challenges in respect of—
 - (i) decisions made on applications, or
 - (ii) failures to make decisions.

Matter 18.5

The exercise or discharge, otherwise than by the authority whose functions they are, of functions of an authority in its capacity as a local planning authority.

Matter 18.6

Planning permission ceasing to have effect where the development to which it relates has been begun but not completed.

Matter 18.7

Enforcement—

- (a) where things are done without any planning permission that is required,
- (b) where there is a failure to comply with any condition or limitation subject to which planning permission has been granted,
- (c) of prohibitions or requirements imposed for the preservation, in the interests of amenity, of particular trees or woodlands, and
- (d) of provisions restricting or regulating, in the interests of amenity or public safety, the display of advertisements.

Not included in matters 18.4, 18.5, 18.6 and 18.7

Matters 18.4, 18.5, 18.6 and 18.7 do not include—

- (a) criminal liability for acts or omissions done or suffered by or on behalf of the Crown, or
- (b) any requirement for consent in relation to any step taken for the purposes of enforcement in relation to land in which there is any Crown interest.
- (3) In the Interpretation of the field, before the definition of “local planning

authority” insert—

““Crown interest” includes an interest—

- (a) belonging to Her Majesty in right of the Crown, in right of the Duchy of Lancaster or in right of Her private estates,
- (b) vested in a government department or held in trust for Her Majesty for the purposes of a government department, or
- (c) belonging to the Duchy of Cornwall;”.

Mae’r datganiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru yn nodi:

Yn ddiweddar cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o’r broses o wneud cais cynllunio yng Nghymru gyda chymorth adroddiad annibynnol (Astudiaeth i Archwilio’r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru, Mehefin 2010). Daeth themâu allweddol i’r amlwg sy’n dangos lle mae angen newid, gan gynnwys lleihau ansicrwydd ac oedi, yr angen i wneud penderfyniadau cynllunio ar y lefel briodol a’r angen i awdurdodau cynllunio lleol fod yn fwy ymatebol drwy rannu adnoddau arbenigedd fwy drwy weithio’n well ar draws ffiniau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n ceisio pwerau o dan y Mesur yn y meysydd hyn a meysydd cysylltiedig er mwyn gallu datblygu’i pholisi ar yr adeg briodol.²⁰

Mae Memorandwm Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau’r fframwaith yn y Mesur Seneddol yn egluro’r rhesymau’n fanylach dros geisio cymhwysedd ychwanegol²¹. Er bod y pwerau gweithredol ynghylch cynllunio gwlad a thref wedi’u datganoli i Weinidogion Cymru, mae’r cymhwysedd deddfwriaethol wedi’i gyfyngu ar hyn o bryd i basio Mesurau ar gynlluniau datblygu awdurdodau datblygu lleol a chynlluniau Gweinidogion Cymru. Byddai’r Mesur yn ymestyn y cymhwysedd deddfwriaethol hwn mewn pedwar maes:

- paratoi, prosesu, ystyried a phennu ceisiadau cynllunio sy’n gofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu neu i ddiwygio caniatâd cynllunio sy’n bodoli eisioes (Mater 18.4);
- arfer neu beidio ag arfer swyddogaethau awdurdod cynllunio lleol ac eithrio gan yr awdurdod sy’n gweithredu’r swyddogaethau hynny (Mater 18.5);
- caniatâd cynllunio yn peidio â chael effaith pan fydd datblygiad wedi’i ddechrau ond heb ei gwblhau (Mater 18.6);
- ystyried a chymryd camau gorfodi i atal datblygiad, i gyfyngu arno, neu i’w ddiddymu (Mater 18.7).

²⁰ Op.cit, Datganiad ysgrifenedig, 14 Rhagfyr 2010.

²¹ Memorandwm Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bwerau fframwaith i Gymru yn y Mesur Refferendwm, Rhagfyr 2010.

Mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y byddai Mater 18.4 yn caniatáu i'r Cynulliad basio Mesur ynghylch cyflwyno hierarchaeth datblygu statudol er mwyn pennu pwy sy'n penderfynu ar y categorïau datblygu gwahanol. Cyflwynwyd hierarchaeth statudol o'r fath yn yr Alban yn ddiweddar.

Mae hefyd yn awgrymu y byddai Mater 18.5 yn galluogi Mesur i gael ei basio i newid y diffiniad o awdurdod cynllunio lleol, fel y byddai'n rhaid, er enghraifft, i ddau neu fwy o awdurdodau gydweithio i arfer swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol. Byddai hefyd yn galluogi darpariaethau i gael eu creu mewn perthynas â gwasanaethau cynllunio ar y cyd, er enghraifft fel y gallai un awdurdod ddarparu gwasanaeth arbenigol ar ran awdurdodau eraill.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y byddai Mater 18.7 yn galluogi Mesur i gael ei basio a fydd yn creu darpariaeth ynghylch gorfodi unrhyw enghreifftiau o dorri rheolaeth cynllunio, megis cael gwared ar yr angen i Weinidogion Cymru gadarnhau hysbysiadau cwblhau diwrthwynebiad, pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol i symud gwaith adeiladu pan fydd hysbysiad cwblhau wedi'i gadarnhau a chael gwared ar y cyfyngiadau amser ar gyfer cymryd camau gorfodi.

Nid yw'n glir a fydd y cymhwysedd yn cynnwys ceisiadau ar gyfer cysyniad adeiladau rhestredig neu gysyniad ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, mae Memorandwm Llywodraeth Cymru yn nodi **na alwyd am bwerau** mewn perthynas â'r **system apeliadau cynllunio**.

3.3. Y system Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) yng Nghymru.

Mae cymal 152 o'r Mesur yn nodi:

152 Powers of the National Assembly for Wales

In Part 1 of Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006 (Assembly Measures: matters) in Field 11 (housing) after Matter 11.8 insert—

Matter 11.9

“Accounts of local authorities in respect of land, housing and other buildings relating to their housing functions.

Matter 11.10

Borrowing by local authorities for the purposes of their housing functions.

Matter 11.11

Subsidies or payments replacing subsidies from the Welsh Ministers to local authorities, or from local authorities to the Welsh Ministers, in respect of local authorities' housing functions.”

Mae'r cymal yn creu pwerau fframwaith sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i basio Mesurau sy'n ymwneud â chyllid tai awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys y system Cyfrif Refeniw Tai a Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru mewn awdurdodau lleol unigol. Bu'r system HRAS yng Nghymru yn destun adolygiad yn ddiweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a arweiniwyd gan yr Athro Steve Wilcox.²² Yn dilyn adolygiad o'r system HRAS yn Lloegr yn 2009, penderfynodd Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig ddiddymu'r system. Mae Llywodraeth bresennol y Deyrnas Unedig hefyd wedi ymrwymo i ddileu'r system yn Lloegr - caiff hyn ei adlewyrchu ym mhennod 3 o'r Mesur.

Llywodraeth Cymru sy'n gweinyddu'r system HRAS yng Nghymru ond Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n rheoli'r system. Mae unrhyw hawl i gymorthdal yn seiliedig ar incwm a gwariant tybiannol o fewn HRA awdurdod. Mae'r HRA yn gyfrif sydd wedi'i neilltuo sy'n cynnwys incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â stoc tai awdurdod lleol.

O dan y system HRAS, mae awdurdodau lleol sydd â stoc tai yn cael cymhorthdal gan Weinidogion Cymru os tybir bod diffyg ariannol yn eu HRA er mwyn cadw cydbwysedd y cyfrif. Caiff hyn ei ariannu drwy ailddosbarthu incwm a gafwyd gan awdurdodau lleol y penderfynwyd ei fod yn arian dros ben yn eu HRA, gydag arian ychwanegol gan Drysorlys Ei Mawrhydi os oes angen.

Os tybir bod gan awdurdod lleol arian dros ben yn ei HRA, rhaid iddo dalu'r swm hwn i Weinidogion Cymru - gelwir hyn yn gymhorthdal negyddol. Bydd unrhyw symiau a gaiff eu talu o dan HRAS i Weinidogion Cymru'n cael eu trin fel Gwariant a Reolir yn Flynyddol gan Drysorlys Ei Mawrhydi, ac felly nid ydynt ar gael i'w gwario ar unrhyw beth arall oherwydd bod yr incwm hwn yn cael ei gasglu o gyfanswm adnoddau'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol gan y Trysorlys i Lywodraeth Cymru.

Bwriadwyd i'r system ailddosbarthu arian, gyda'r awdurdodau lleol hynny y mae disgwyl iddynt gael mwy o incwm nag sy'n angenrheidiol i gydbwyso eu HRA yn talu am yr ardaloedd hynny lle nad yw'r lefelau incwm yn ateb y gofynion a chyda Trysorlys Ei Mawrhydi yn talu unrhyw arian ychwanegol sydd ei angen. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, tybir bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru sydd â stoc tai arian dros ben yn ei HRA ac felly ei bod yn talu cymhorthdal negyddol i Weinidogion Cymru, sy'n cael ei drosglwyddo i'r Trysorlys drwy'r trefniadau a nodwyd uchod.

²² Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jocelyn Davies (Y Dirprwy Weinidog dros Dai, [Adolygiad o Gyfundrefn y Cyfrif Refeniw Tai ac Adolygiad o'r Polisiau ar Renti'r Sector Cymdeithasol](#), Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 17 Tachwedd 2009

Nid yw awdurdodau lleol sydd wedi trosglwyddo'u stoc tai i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn rhan o'r system HRAS.

Ar 8 Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Jocelyn Davies AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, yn y Cyfarfod Llawn ei bod wedi cael tystiolaeth o adolygiad yr Athro Wilcox a bod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wedi cyflwyno sylwadau i Drysorlys Ei Mawrhydi yn galw am ddiddymu'r system yng Nghymru. Nododd hefyd y gwahaniaethau o ran arian tai awdurdodau lleol rhwng gweinyddiaethau'r Deyrnas Unedig ar ôl datganoli:

To give the Chamber a flavour of the difference between the various administrations, since devolution, the claw back to the Treasury from all English local authorities comes to £653 million; Scotland has gained £82 million, and Welsh local authorities have handed back £900 million. If it was unfair to England, it is gross injustice to Wales, when you consider that we have 5 per cent of the stock, but that our local authorities have parted with £900 million. We put in the case to the UK Government that this is the opportunity to do it; the localism Bill gives us the opportunity in terms of powers, but I hope that the UK Treasury will see that this has been an injustice that has gone on for many years, and that should it now be put to an end.²³

Bydd y Mesur Seneddol hefyd yn mewnosod Mater 11.10, a fydd yn caniatáu creu Mesurau Cynulliad ynghylch benthyca gan awdurdodau lleol at ddiben eu swyddogaethau tai.

4. Pwerau i Weinidogion Cymru

4.1. *Amseru'r broses o ailbrisió'r dreth gyngor*

Mae'r Mesur yn cynnwys dwy ddarpariaeth, sy'n berthnasol i Gymru'n unig, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru. Mae'r cyntaf, cymal 65, yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru benderfynu ar amseriad y broses o ailbrisió'r dreth gyngor yng Nghymru.

Y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag ailbrisió bandiau'r dreth gyngor yng Nghymru ar hyn o bryd yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2003*,²⁴ ("Deddf 2003") a oedd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer y broses ailbrisió a ddigwyddodd yn 2005.

Roedd adran 77 o Ddeddf 2003 yn mewnosod adran 22B yn *Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 2002*²⁵ ("Deddf 1992"), sy'n creu cylch ailbrisió statudol ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru a Lloegr. Roedd adran 22B(2) yn ei gwneud yn

²³ [Cofnod y Trafodion, 8 Rhagfyr 2010](#)

²⁴ *Deddf Llywodraeth Leol 2003* (Pennod 26). <http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2003/20030026.htm> (Saesneg yn unig)

²⁵ *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992* (Pennod 14) http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1992/ukpga_19920014_en_1 (Saesneg yn unig)

ofynnol bod rhestrau newydd yn cael eu llunio a'u bod yn dod i rym yn Lloegr ar 1 Ebrill 2007²⁶ ac ar 1 Ebrill 2005 yng Nghymru. Mae adran 78 o Ddeddf 2003 yn rhoi'r pŵer i newid nifer bandiau'r dreth gyngor.

Mae Adran 22B(3) o Ddeddf 1992 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhestrau newydd yn cael eu pennu a'u bod yn dod i rym yn ddim hwyrach na 10 mlynedd ar ôl dyddiad y rhestrau blaenorol (2005 a 2007). Mae hyn yn golygu mai nid 10 mlynedd fydd y cyfnod rhwng yr ailbrisiadau bellach.

Mae'r Mesur Seneddol yn diwygio'r adran berthnasol o Ddeddf 1992 ymhellach ar gyfer Cymru fel y gall Gweinidogion Cymru wneud Gorchymyn ar unrhyw adeg yn galw am greu rhestr ailbrisiu newydd ar 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn – ailbrisiu at ddibenion y dreth gyngor mewn gwirionedd.

Ystyr hyn, mewn gwirionedd, yw y gallai Gweinidogion Cymru ohirio ailbrisiad pellach am gyfnod amhenodol fel yn Lloegr pan gafodd y darpariaethau ar gyfer amseru'r broses o ailbrisiu trethi yn Lloegr yn Neddf 1992 eu diddymu a'u diwygio yn 2006, a oedd yn golygu na allai'r broses ailbrisiu arfaethedig yn 2007 fynd yn ei blaen. Gwnaeth *Deddf Treth Gyngor (Rhestrau Ailbrisiu Newydd i Loegr) 2006*²⁷ gael gwared ar y darpariaethau yn Neddf 1992 ac, yn lle hynny, rhoddodd y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu'r dyddiad ar gyfer y broses ailbrisiu gyntaf a'r prosesau wedi hynny drwy Orchymyn, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd. Mae cymal 65 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i unrhyw Orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.2. Pwerau ynghylch capio'r dreth gyngor

Mae Adran 56 o'r Mesur Seneddol yn creu darpariaethau ar gyfer diwygio deddfwriaethau eraill er mwyn caniatáu i refferenda sy'n ymwneud â chodi'r dreth gyngor gael eu cynnal. Mae Atodlen 6 (Council tax referendums: consequential amendments) yn cadw'r darpariaethau ynghylch capio'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae hyn yn caniatáu i'r trefniadau presennol barhau nes y caiff Mesur Cynulliad ei basio a fydd yn gwneud darpariaethau ar gyfer cynnal refferenda ar gynyddu'r dreth gyngor.

²⁶ Wedi hyn, rhoddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y gorau i'r cynlluniau i ailbrisiu yn Lloegr.

²⁷ [Deddf Treth Gyngor \(Rhestrau Ailbrisiu Newydd i Loegr\) 2006](#) (c.7) (Saesneg yn unig)

5. Y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad

Mae llwybr y Mesur Seneddol ynghylch Lleoliaeth drwy San Steffan yn cyddigwydd â'r refferendwm ar a ddylid dechrau Rhan 4 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ("Deddf 2006"), a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol i'r Cynulliad mewn perthynas â'r pynciau a nodwyd yn Atodlen 7.

Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn esbonio nad yw'r materion sydd wedi'u rhestru o fewn pwerau fframwaith y Mesur Seneddol wedi'u nodi i'r fath fanylder yn Atodlen 7 ond eu bod eisioes yn disgyn o fewn y materion ehangach yn yr Atodlen. Yn benodol:

- byddai materion 11.9 i 11.11, sy'n ymwneud â chyfrifon awdurdodau lleol, benthyca a chymhorthdaliadau mewn perthynas â'u swyddogaethau tai, yn dod o dan y pennawd "Housing and housing finance" ym mharagraff 11 yn rhan 1 o Atodlen 7;
- byddai mater 12.19, sy'n ymwneud â refferenda ar gynyddu'r dreth gyngor yn dod o dan y pennawd "Local government finance" ym mharagraff 12; a
- byddai materion 18.4 i 18.7, sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio a chamau gorfodi yn dod o dan y pennawd "Town and country planning" ym mharagraff 18.

Esbonia'r Memorandwm ymhellach:

This means that in the event of an affirmative vote in the referendum (due to be held on 3 March 2011), the Assembly would be able to legislate in relation to these matters. But in the event of a "no" vote the current process will continue, whereby the Welsh Assembly Government will be able to seek legislative competence for the Assembly on a case by case basis through framework powers in Acts of Parliament and Legislative Competence Orders (LCOs) under section 95 of the 2006 Act. Under this scenario, the framework powers in this Bill would confer legislative competence on the Assembly in the specific areas of referendums on council tax increases, development management and the Housing Revenue Account (HRA) and HRA subsidy.